



Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 5ED GORFFENNAF, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol – Zoom**

I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni.

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**[SionedMaiJones@gwynedd.llyw.cymru](mailto:SionedMaiJones@gwynedd.llyw.cymru)**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 27 Mehefin 2022)

# **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

## **AELODAETH (15)**

### **Plaid Cymru (9)**

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes  
Olaf Cai Larsen  
Gwynfor Owen  
Arwyn Herald Roberts  
Sedd Wag

Linda Ann Jones  
Edgar Wyn Owen  
Llio Elenid Owen  
Beca Roberts

### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

Anwen J. Davies  
Eryl Jones-Williams  
Sedd Wag

Anne Lloyd-Jones  
Dewi Owen

### **Llafur/Rhyddfrydol (1)**

Y Cynghorydd Stephen Churchman

### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL IS-GADEIRYDD

## 2. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 4. MATERION BRYD

I nodi unrhyw eitemau sydd yn faterion bryd ym marn y Cadeirydd er mwyn eu hystyried.

## 5. COFNODION

4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Chwefror, 2022 yn cael eu harwyddo fel rhai cywir.

## 6. RÔL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

9 - 11

Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol i gyflwyno gwybodaeth am rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.

## 7. ADOLYGU TREFNIADAU CROESAWU CYNGHORWYR

12 - 15

I dderbyn sylwadau'r aelodau ar y trefniadau croesawu yn dilyn Etholiad Mai 2022.

## 8. CYFARFODYDD AML-LEOLIAD

16 - 17

I roi diweddariad am ddatblygiadau ymarferol o ran cynnal cyfarfodydd hybrid.

# Eitem 5

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD Dydd Mawrth, 19 Tachwedd 20192

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH DYDD IAU, 17 CHWEFROR 2022

### YN BRESENNOL:

#### Cynghorwyr:

Anne Lloyd Jones (Cadeirydd), Gwynfor Owen, Annwen Hughes, Olaf Cai Larsen, Edgar Wyn Owen, Linda Ann Jones, Judith Mary Humphreys, Eryl Jones-Williams, Hefin Underwood, Anwen J Davies a Dewi Owen.

**Swyddogion:** Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth), Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) a Ffion Bryn Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol).

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

### 3. MATERION BRYS

Ni godwyd unrhyw faterion brys.

### 4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 16 Tachwedd, 2021 fel rhai cywir.

### 5. DIWEDDARIAD AR ETHOLIADAU MAI 2022

#### PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad gan nodi'r wybodaeth.

Fe gyflwynwyd yr eitem gan Arweinydd Tîm Gwasanaeth Democratiaeth.

Nodwyd fod llawer o waith trefnu a chynllunio wedi bod yn y cefndir ers oddeutu blwyddyn at Etholiadau Mai 2022. Cyhoeddwyd y bydd sesiynau gwybodaeth i ddarpar Gynghorwyr yn cael eu cynnal yn rhithiol ar yr 28ain o Chwefror ac ar y 7fed o Fawrth. Eglurwyd y bydd y sesiynau hyn yn gyfle da i'r ymgeiswyr gael cyfle i holi unrhyw gwestiynau sydd yn eu pryderu nhw ac i rannu'r wybodaeth berthnasol.

Parhawyd i egluro fod paratodau mewn lle at y dyddiau croeso ac anwytho i'r cynghorwyr caiff eu hethol yn yr etholiadau. Eglurwyd fod y cynlluniau at y dyddiau croeso eleni yn unol â'r sylwadau ac adborth a dderbyniwyd yn dilyn etholiadau 2017. Nodwyd fel rhan o'r cynlluniau hyn bod trefniadau i aelodau o'r tîm democratiaeth ddiweddarau'r wefan gyda chanlyniadau'r etholiadau yn effeithlon ar y diwrnod canlyniadau.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau :

- Gofynnwyd beth oedd y canllawiau sy'n cael eu rhoi i ymgeiswyr cyn yr etholiad. Eglurwyd fod y cyfnod etholiadol yn dechrau 18eg o Fawrth, a fydd yn dod i ben 5ed o Ebrill. Nodwyd y bydd arweiniad cadarn yn y sesiynau gwybodaeth, ac y bydd y canllawiau hyn yn cael eu nodi ar y wefan cyn gynted â byddent yn derfynol.
- Holwyd os oedd bwriad i'r cynlluniau etholiadau cael eu haddasu fel a wnaethpwyd i Etholiadau'r Senedd yn 2021 i gydymffurfio â rheoliadau Covid-19. Atebwyd fod y Tîm Etholiadau am greu y trefniadau hyn ac am eu cyhoeddi unwaith y byddent yn derfynol, gan sicrhau fod trefniadau Covid yn cael eu hystyried. Nodwyd hefyd y bydd system o gadarnhau canlyniadau'r etholiad ar lein o fewn munudau o'u cyhoeddi yn lleihau'r nifer o bobl sydd angen bod yn y neuaddau etholiad.
- Yn dilyn y newidiadau i'r wardiau, holwyd os oes addasiadau i'r gofrestr etholwyr a'r gorsafoedd pleidleisio. Nodwyd fod gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i addasu'r gofrestr etholwyr a threfniadau ar gyfer lleoliadau newydd ar gyfer gorsafoedd pleidleisio.

## 6. AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

### PENDERFYNWYD:

- a) Derbyn y diweddariad, gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.**
- b) Sefydlu trefniadau anffurfiol ar gyfer Merched sy'n Gynghorwyr yn dilyn Etholiad Mai 2022.**

Cyflwynwyd diweddariad gan y Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith ar gamau gweithredu'r Cyngor o geisio annog mwy o amrywiaeth mewn Democratiaeth. Eglurwyd bod Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd wedi ei gyhoeddi ym mis Hydref 2021 cyn i'r rhaglen waith gael ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar yr 2<sup>il</sup> o Ragfyr, 2021.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y Datganiad diweddar sydd wedi cael ei arwyddo gan holl Arweinyddion Cynghorau Cymru i gynnal ymgyrch etholiadol teg a pharchus. Credwyd y bydd hyn yn annog amrywiaeth mewn Democratiaeth ac y byddai yn ychwanegu at raglen waith y Cyngor hwn. Yn sgil y Datganiad gofynnwyd i bawb sy'n ymgyrchu'n etholiadol i drin ei gilydd â pharch a chwarteisi.

Ychwanegwyd fod yr adborth sydd wedi cael ei dderbyn ar ffurf holiaduron am y sesiynau Merched sy'n Gynghorwyr wedi bod yn gadarnhaol iawn hyd yn hyn.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:

- Mynegwyd balchder am y Datganiad ymgyrch teg a pharchus a cydnabyddwyd ei bwysigrwydd.
- Credwyd bod angen system bleidleisio gyfrannol ac y byddai hyn yn denu ymgeiswyr newydd drwy ei gwneud yn haws iddynt roi eu henwau ymlaen.
- Gwnaethpwyd sylw y dylid lleihau nifer y Cynghorwyr ymhellach gan wneud y swydd yn un llawn amser er mwyn hybu amrywiaeth.
- Derbyniwyd yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud.
- Mynegwyd fod y sesiynau Merched sy'n Gynghorwyr wedi bod yn fuddiol ac wedi rhoi cyfle i aelodau drafod yn agored a'n anffurfiol gan rannu profiadau. Credwyd eu bod yn arbennig o fuddiol i Gynghorwyr newydd.

- Awgrymwyd y gall sesiynau tebyg i Ddynion sy'n Gynghorwyr gael eu trefnu pe bai dymuniad gan aelodau.

## **7. DIWEDDARIAD AR GYFARFODYDD HYBRID**

### **PENDERFYNWYD:**

**Derbyniwyd yr adroddiad gan nodi'r wybodaeth.**

Cyflwynwyd yr eitem gan Reolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith.

Diweddarwyd y Pwyllgor am y trefniadau ynghylch â chyfarfodydd hybrid. Nodwyd fod y Cyngor Llawn wedi penderfynu ar ba bwyllgorau fydd yn cael eu cynnal yn hybrid o fewn y calendr pwyllgorau sef y Cyngor Llawn, Cabinet, Pwyllgorau Craffu yn ogystal â'r Pwyllgor Cynllunio.

Eglurwyd fod rheoliadau Cofid Llywodraeth Cymru wedi arafu'r cyfleoedd i ddatblygu'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd hybrid. Er hynny, nodwyd fod y cyfleoedd wedi bod i brofi'r system a bod Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol wedi ei gymeradwyo.

Diolchwyd i aelodau'r gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith am gymryd rhan yn y datblygiadau ar gyfer y system drwy gynnal ymarferiadau a phroffion cyson i ganfod y manau gwan. Nodwyd y bydd y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro'n treialu'r system yma yn fuan.

Mynegwyd y bydd hyfforddiant ac arweiniad i Gynghorwyr ar fynychu cyfarfodydd hybrid gan amlygu hyfforddiant ar gyfer Cadeiryddion. Eglurwyd y bydd protocolau i'r cyfarfodydd yn cael eu datblygu.

Yn ystod y drafodaeth codwyd y sylwadau :

- Nodwyd balchder o weld y gwaith datblygu cyfarfodydd hybrid yn mynd yn ei flaen- a holwyd os oes modd cefnogi cyfarfodydd Cynghorau Cymunedau a Llywodraethwyr er mwyn eu galluogi i fod yn hybrid. Atebwyd fod system y siambr wedi ei osod, ond nad oedd systemau symudol. Nodwyd fod y tîm cyfieithu wedi bod yn helpu rhai cynghorau cymuned ar sut i gael system cyfieithu ar-lein.
- Gofynnwyd a oes modd cael canllaw a phwynt cyswllt clir i'r aelodau sydd yn cael trafferthion i ymuno â chyfarfodydd gan nad oes modd i'r aelodau yn y pwyllgor fod yn ymwybodol o'r trafferthion a statws eu presenoldeb. Mynegwyd fod y rhif cyswllt ar flaen rhaglenni yn anaddas gan fod y cyswllt yna fel arfer yn cofnodi. Eglurwyd fod modd cysylltu gydag e-bost generic Gwasanaeth Democratiaeth.
- Mynegwyd fod angen gwell hyfforddiant ar sut i ddefnyddio teclynnau ac ymuno efo cyfarfodydd. Nodwyd fod hyfforddiant ar gael i unrhyw un unrhyw dro maent ei angen.
- Gofynnwyd am gadarnhad os bydd y datblygiad yn y cyfarfodydd hybrid yn cael ei rannu gyda'r wybodaeth am etholiadau gan y gallai ddenu amrywiaeth o bobl i sefyll i fod yn gynghorwyr. Cadarnhawyd fod hyn yn bendant yn cael ei nodi ac y bydd gwybodaeth bellach yn cael ei rannu yn y sesiynau gwybodaeth.

## **8. CALENDR CYFARFODYDD**

### **PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad a chefnogi'r Calendr Pwyllgorau 2022/23 a'i argymhell i gyfarfod y Cyngor Llawn ar y 3<sup>ydd</sup> o Fawrth, 2022.**

Cyflwynwyd y Calendr Cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn Bwyllgorau 2022/23. Eglurwyd fod y Calendr wedi cael ei ddatblygu ar y cyd efo Adrannau'r Cyngor i wneud yn siŵr fod Pwyllgorau yn cael eu cynnal yn amserol. Ychwanegwyd y bydd amseroedd Pwyllgorau yn cael eu cadarnhau efo aelodau ar ôl yr etholiad er mwyn gweld pa amseroedd fydd fwyaf cyfleus.

Nid oedd sylwadau pellach ac roedd yr aelodau yn hapus efo'r dyddiadau ac i argymhell y Calendr i'r Cyngor Llawn.

## **9. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AC UWCH GYFLOGAU**

### **PENDERFYNIAD**

- a) Derbyn yr adroddiad sy'n nodi pa rolau fydd yn derbyn uwch gyflog am 2022/23 a'i argymhell i'r Cyngor Llawn.**
- b) Adolygu'r rhestr ar gyfer 2023/24.**

Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith ei bod yn disgwyl adroddiad terfynol gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol erbyn diwedd y mis. Mynegwyd y bydd y wybodaeth yn cael ei amlinellu ym mwletin Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.

Nodwyd mai'r prif beth i dynnu sylw ato yw'r argymhelliad i ostwng y nifer o aelodau ar gyflogau uwch o 18 i 17 gan dynnu Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o'r rhestr o gadeiryddion ar gyflog uwch. Eglurwyd fod disgwyliad i'r Cyngor yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiad Cymru (2021) benodi Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o blith yr Aelodau Lleyg o Mai 2022 ymlaen. Eglurwyd y byddai yn synhwyrol i Bwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth adolygu'r rhestr swyddi cyflog uwch yn llawn yn ystod 2022/23 i sicrhau fod y rolau cywir yn parhau i dderbyn y gydnabyddiaeth ariannol uwch.

Sylwadau â godwyd o'r drafodaeth :

- Nodwyd y dylai Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth gael cydnabyddiaeth o gyflog uwch gan ei fod â dipyn o gyfrifoldeb. Nodwyd, yn unol â'r argymhelliad, y gall cyfrifoldebau holl Gadeiryddion y Pwyllgorau gael ei asesu, ond na fydd modd gwneud hynny cyn Mai.
- Gofynnwyd os oedd holl bwyllgorau'r Cyngor yn rhai statudol, ond atebwyd nad oeddynt ac yn hytrach yn cael eu penodi yn ôl gofyn yr Awdurdod Lleol. Mynegwyd o ganlyniad i hyn fod lle i'r Cynghorwyr newydd asesu'r strwythur bresennol a rhoi argymhelliad ar gyfer 2023/24.
- Mynegwyd fod yr adroddiad yma yn cael ei gyflwyno ar yr adeg anghywir o ystyried fod llawer o deuluoedd mewn trafferthion ariannol tra bod y Cyngor yn cynnig dosbarthu mwy o arian.

## **10. ADRODDIAD PERFFORMIAD TÎM GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

### **PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.**

Cyflwynwyd adroddiad ar berfformiad y tîm Gwasanaethau Democratiaeth. Nodwyd fod y tîm eisoes yn adrodd i'r drefn herio perfformiad Adrannol ond credwyd y byddai o fudd i aelodau'r Pwyllgor hwn hefyd dderbyn diweddariad a chael cyfle i roi barn ar waith y tîm.

Cyfeiriwyd at yr holiaduron sy'n cael eu cwblhau gan Aelodau ddwywaith y flwyddyn am berfformiad y tîm, yn ogystal â'r sgysiau un i un efo Aelodau sydd bellach wedi cychwyn. Bwriedir cynnal y sgysiau hyn yn rheolaidd bydd y gwaith yma yn parhau dros y misoedd nesaf. Ychwanegwyd fod y tîm Gwasanaethau Democratiaeth hefyd yn derbyn sylwadau gan y cyhoedd, gellir gweld manylion pellach am yr adborth yma yn yr adroddiad.

I gloi nodwyd y bydd adroddiad ar berfformiad y tîm Democratiaeth yn cael ei gyflwyno i bob Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn y dyfodol fel y bydd yr Aelodau yn cael gwybodaeth gyson ar waith y tîm.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:

- Gwnaethpwyd sylw y dylai'r cyhoedd gal cyfle i gyfleu eu teimladau am sut mae Aelodau'r Cyngor yn gweithredu ar eu rhan ac ar ran y Cyngor. Awgrymwyd at y flwyddyn Bwyllgorau 2022/23 y dylai'r Pwyllgor hwn holi a derbyn gwybodaeth am broblemau penodol gan y cyhoedd a'u trafod yn y cyfarfodydd. Awgrymwyd y byddai darparu holiadur i'r cyhoedd yn ffordd o ganfod y wybodaeth yma.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben am 15:10.

---

**CADEIRYDD**



## CYNGOR GWYNEDD



<b>Pwyllgor:</b>	Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	5ed Gorffennaf, 2022
<b>Teitl yr Eitem:</b>	Rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth
<b>Pwrpas:</b>	Cyflwyno gwybodaeth am rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.
<b>Swyddog (ion) cyswllt:</b>	Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

### Adroddiad i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth

#### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno.

#### 2. CRYNODEB

- 2.1 Mae rôl penodol ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth wedi ei nodi yn Ndedd Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Noder yn y Ddeddf fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:
- Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth
  - Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl,
  - Cynhyrchu adroddiad, o leiaf pob blwyddyn, i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.
- 2.2 Mae 15 aelod ar y Pwyllgor. Mae'r aelodaeth ar sail cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor, gan geisio sicrhau cynrychiolaeth o bob grŵp gwleidyddol. Mae'r Cadeirydd yn cael ei b/phenodi gan y Cyngor llawn yn flynyddol. Cyfrifoldeb y pwyllgor yw

penodi is-gadeirydd. Mae rôl bwysig gan y Cadeirydd fel pwynt cyswllt i holl aelodau'r Cyngor ar gyfer trafod unrhyw ofynion o ran cefnogaeth yn eu rôl.

- 2.3 Fel Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth, rwy'n pwysleisio o hyd fod yn rhaid wrth ddeialog agored gyda chi fel Aelodau etholedig er mwyn sicrhau fod y gefnogaeth a ddarperir i chi yn ateb eich gofynion ar gyfer y rôl. Felly rwy'n eich annog i gysylltu gyda mi neu Gadeirydd y pwyllgor i godi unrhyw faterion perthnasol. Fel aelodau o'r Pwyllgor, mae gennych gyfrifoldeb i fod yn cynrychioli eich cyd-aelodau, gan godi materion ar eu rhan.
- 2.4 Fel rydych i gyd yn ymwybodol, bu i mi gyflwyno fy adroddiad blynyddol i gyfarfod y Cyngor llawn ar y 23ain o Fehefin eleni.
- 2.5 Dros gyfnod y Cyngor diwethaf, bu symud ymlaen gyda'r ddarpariaeth sy'n cael ei gynnig i Aelodau etholedig yn sgil materion a godwyd yn y pwyllgor. Noder isod rhai enghreifftiau:
- Datblygu'r Mewnwyd aelodau i fod yn haws i'w ddefnyddio
  - Datblygu canllawiau a dolenni defnyddiol ar gyfer sut i edrych ar ôl eich hun ee gosod gweithfan yn gywir, ystyriaethau wrth gynnal syrjeris gyda'r cyhoedd, cefnogaeth iechyd meddwl ee trwy Medra
  - Mewnbwn i'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd rhithiol a chyfarfodydd aml leoliad
  - Mewnbwn i'r trefniadau ar gyfer yr etholiad, gan gynnwys cynnig opsiynau o ddarpariaeth TG, datblygu'r Llawlyfr Aelodau ac adnabod/blaenoriaethu rhaglen cyflwyno gwybodaeth ac hyfforddiant.
- 2.6 Mae'n debyg y bydd aelodau'r Pwyllgor yn rhoi sylw i'r materion a ganlyn dros y flwyddyn neu ddwy nesaf.

#### **Adeiladu ar ddatblygiadau eleni**

- 2.7 Bydd y ffocws eleni ar geisio sicrhau eich bod yn derbyn y wybodaeth a'r hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eich galluogi i gyflawni a datblygu yn eich rôl. Mae rhaglen o gyflwyniadau a hyfforddiant yn cael ei gynnig, ond cofiwch gysylltu gyda'r tîm Dysgu a Datblygu os ydych yn dymuno unrhyw hyfforddiant pellach neu wahanol.
- 2.8 Byddwn yn parhau gyda'r sesiynau anffurfiol i ferched sy'n Gynghorwyr, a hefyd yn cynnal sesiynau tebyg ar gyfer Cynghorwyr newydd. Bydd yn gyfle i drafod yn hollol anffurfiol, gofyn unrhyw gwestiwn, a chefnogi eich gilydd yn eich rôl.
- 2.9 Yn ogystal byddwn yn gweithredu'r Fframwaith Cynnal Pwyllgorau gan symud ymlaen i gynnig darpariaeth aml leoliad ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor Llawn, Cabinet, Pwyllgor Cynllunio a Phwyllgorau Craffu. Mae cryn waith wedi ei wneud yn

y maes yma eisoes, ond lle i fod yn gwella o hyd. Byddwn yn cydweithio gyda chi ar hyn dros y misoedd i ddod.

### **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

2.10 Mae gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn dod i rym yn raddol, gyda manylion gofynion y ddeddf yn parhau i gael eu datblygu. Bydd angen sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda'r amodau o fewn y Ddeddf, gan edrych yn fanwl ar rai elfennau megis;

- gofynion gwe-ddarlledu,
- dyletswydd i annog pobl leol i gymryd rhan pan fo llywodraeth leol yn gwneud penderfyniadau,
- dyletswydd i wneud a chyhoeddi cynllun deisebau,
- parhau gyda'r gwaith o sicrhau mynediad o bell fel modd hwyluso gallu Aelodau i gyfrannu mewn pwyllgorau.
- Sicrhau adolygiad blynyddol ar gyfer gofynion hyfforddiant pob Cynghorydd yn unigol
- Adolygu amseroedd cynnal pwyllgorau

2.11 Mae rhai materion sy'n cael eu trafod yn flynyddol gan y Pwyllgor hwn, gan gynnwys ymgynghoriad Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol (Cymru), gofynion deddfwriaethol perthnasol i'r maes, adroddiad blynyddol Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, Calendr cyfarfodydd y Cyngor.

2.12 Edrychaf ymlaen at eich mewnbwn i symud y gwaith yma ymlaen.

# Eitem 7

## CYNGOR GWYNEDD



<b>Pwyllgor:</b>	Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	5ed Gorffennaf, 2022
<b>Teitl yr Eitem:</b>	Adolygu trefniadau croesawu Cynghorwyr
<b>Pwrpas:</b>	Gofyn i aelodau'r Pwyllgor am sylwadau ar drefniadau croesawu yn dilyn Etholiad Mai 2022.
<b>Swyddog (ion) cyswllt:</b>	Vera Jones, Rheolwr Democratiaeth ac Iaith

### Adroddiad i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth

#### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth gyflwyno sylwadau ar y trefniadau Croesawu Cynghorwyr yn dilyn Etholiad 2022 er mwyn dysgu gwersi cyn etholiadau 2027.

#### 2. CRYNODEB

- 2.1 Tros y deunaw mis diwethaf mae aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu trefniadau ar gyfer tymor y Cyngor newydd yn dilyn etholiadau mis Mai 2022. Bu cyfle i'r aelodau roi mewnbwn i'r trefniadau ar gyfer gwahanol elfennau, gan gynnwys sesiynau codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r etholiadau, trefniadau'r diwrnod Croeso, rhaglen cyflwyno gwybodaeth a hyfforddiant, a darpariaeth TG.
- 2.2 Rydym yn hynod o falch i ni dderbyn sylwadau cadarnhaol am y trefniadau, ond yn llwyr ymwybodol fod lle i wella o hyd. Fel sy'n arfer gennym, mae'n bwysig ceisio dal a chofnodi yr hyn aeth yn dda a'r hyn y dylid ystyried ei newid at y tro nesaf, a hynny tra mae'r cyfan yn parhau yn fyw yn ein cof. Nodir isod ambell sylw ynghylch y trefniadau fel man cychwyn i'r drafodaeth.

## DIWRNOD CANLYNIADAU

- 2.3 Yn unol a'n trefniadau arfero, roedd y cyfrif a chyhoeddi'r canlyniadau yn digwydd yng Nghaernarfon a Dolgellau. Fel rhan o'r trefniadau, roedd y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith yn croesawu'r cynghorwyr newydd a sicrhau ein bod yn casglu y manylion angenrheidiol ganddynt er mwyn prosesu cyfeiriadau ebost, rhifau cyflog, ceisiadau cyfarfod ayyb, a hynny i gyd i ddigwydd o fewn 1 diwrnod gwaith i'r canlyniad.
- 2.4 Roedd y gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am gyhoeddi'r canlyniadau ar y safle we, gyda'r wybodaeth ar gael yn hwylus fesul ward ac fel cyfanswm ar draws Gwynedd fesul plaid, a hynny yn fyw. Ar yr un pryd roedd negeseuon trydar yn diweddarau'r cyhoedd o'r canlyniadau.
- 2.5 Llwyddwyd i gwblhau'r cyfrif a chyhoeddi'r holl ganlyniadau erbyn 2 o'r gloch y prynhawn hwnnw, oedd yn berfformiad arbennig o dda ac yn gyflym iawn o gymharu â nifer o awdurdodau eraill. Roedd y wybodaeth hefyd yn glir fesul ward yng Ngwynedd, a modd ffiltro ar hynny yn hytrach na gorfod gweithio trwy un rhestr hir nad oedd mewn unrhyw drefn, fel rhai o awdurdodau eraill.
- 2.6 Rydym yn ymwybodol fod nifer fechan o negeseuon trydar wedi eu cyhoeddi cyn i'r safle we gael ei diweddarau, ac rydym wedi nodi hyn fel gwers i'r dyfodol.
- 2.7 Rydym hefyd yn ymwybodol fod rhai defnyddwyr heb fod yn diweddarau y dudalen canlyniadau, ac felly wedi nodi fod y canlyniadau heb eu cyhoeddi. Gallwn sicrhau fod cyfarwyddyd i gynorthwyo'r cyhoedd gyda hyn y tro nesaf.

## DIWRNOD CROESO

- 2.8 Cynhaliwyd dau ddiwrnod croeso, ar y 10fed a'r 11eg o fis Mai eleni. Rhoddwyd gwahoddiad i'r holl aelodau fynychu un o'r ddau ddiwrnod. Roedd cyfuniad o Gynghorwyr oedd yn dychwelyd a chynghorwyr newydd yn y sesiynau ar y ddau ddiwrnod. Braff oedd cael croesawu 25 o gynghorwyr newydd. Llwyddo y mwyafrif i fynychu dros y ddau ddiwrnod, gyda 5 yn ymuno yn rhithiol. Bwriad y dyddiau oedd:
- ceisio cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol i Gynghorwyr cyn i fusnes y Cyngor newydd ail gychwyn
  - sicrhau fod pob Cynghorydd wedi arwyddo derbyn eu swydd a chael cyflwyniad i'r cod ymddygiad
  - rhoi cyfle i Gynghorwyr gyfarfod Cynghorwyr eraill
  - trefnu darpariaeth TG ar gyfer pawb

- 2.9 Yn sgil sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, datblygwyd llawlyfr cryno i'r holl Gynghorwyr fel adnodd cyfeirlyfr i gael mwy o wybodaeth ac i'w gludo gyda hwy o'r dyddiau croeso. Bu aelodau'r pwyllgor hefyd yn cynorthwyo gyda blaenoriaethu'r wybodaeth i'w gyflwyno i Gynghorwyr ar ddechrau'r tymor newydd. Nid camp hawdd yw sicrhau y balans cywir yn hyn o beth. Law yn llaw â hyn, datblygwyd y Mewnrwyd Aelodau i fod yn haws i'w ddefnyddio ac fel man gwybodaeth i'r Cynghorwyr. Gwaith datblygol yw hwn, a gofynnwn i unrhyw un sydd â sylwadau pellach i wella'r mewnrwyd i adael i ni wybod. Bydd sesiwn hyfforddiant hefyd yn cael ei drefnu yn fuan.
- 2.10 Llwyddwyd i gynnig mynediad o bell i Gynghorwyr oedd yn dymuno hynny am y tro cyntaf ar y dyddiau croeso. Cafwyd sylwadau fod y cyfan wedi gweithio'n hwylus i'r rhai oedd wedi ymuno dros zoom.
- 2.11 Fodd bynnag, bu rhai heriau oedd angen eu goresgyn. Cafwyd problem cyswllt gyda'r wi-fi ar y dydd Mawrth, gyda nifer o Gynghorwyr wedi gorfod disgwyl yn hir am eu darpariaeth TG neu wedi gorfod gadael heb dderbyn eu cyfarpar. Addaswyd y trefniadau ar gyfer yr ail ddiwrnod a llwyddwyd i oresgyn y problemau. Dylid nodi hefyd fod y tîm TG wedi bod yn bresennol ar ddiwrnod cyfarfod cyntaf y Cyngor llawn er mwyn cynorthwyo cynghorwyr gydag unrhyw gwestiynau oedd yn codi.

#### RHAGLEN CYFLWYNO GWYBODAETH A HYFFORDDIANT

- 2.12 Cynhaliwyd 10 sesiwn rhithiol, 1 gan bob un o'r Penaethiaid Gwasanaeth rhwng y 23ain o Fai, 2022 a'r 4ydd o Orffennaf, 2022. Mae pob sesiwn wedi ei recordio a byddant oll yn cael eu gosod ar y Mewnrwyd Aelodau fel y gall unrhyw Gynghorydd nad oedd yn gallu bod yn bresennol eu gwyllo, neu i unrhyw Gynghorydd arall gyfeirio nol atynt ar unrhyw adeg. Bu'r niferoedd a fynychodd y sesiynau hyn yn amrywiol iawn.
- 2.13 Ar yr un pryd mae sesiynau hyfforddiant wedi eu cynnal yn rhithiol hefyd yn unol â'r rhaglen waith oedd wedi ei chreu. Rydym yn ymwybodol fod blwyddyn gyntaf Cyngor newydd yn drwm iawn o ran gofynion ar yr holl Gynghorwyr, a'i bod yn falans anodd o ran sicrhau fod y wybodaeth angenrheidiol ar gael yn amserol i bawb.

#### DYSGU GWERSI

- 2.14 Yn gyffredinol, mae'r prif sylwadau sydd wedi eu cyflwyno ar gyfer dysgu gwersi i'r dyfodol fel a ganlyn:

- Amserlen.
  - Edrych os oes modd ymestyn yr amserlen ar gyfer y digwyddiadau cyntaf yn dilyn yr etholiad ee dyddiau croeso, cyfarfod blynyddol y cyngor llawn, cychwyn y cylch pwyllgorau ayyb, a hynny er mwyn caniatáu mwy o amser i weithredu yn y cefndir.
  
- Dyddiau Croeso.
  - Ystyried diwrnod penodol ar gyfer derbyn darpariaeth TG, neu drefn wahanol ar gyfer derbyn a dychwelyd darpariaeth TG, er i bopeth weithio'n hwylus ar yr ail ddiwrnod.
  - Ystyried diwrnod penodol i Gynghorwyr newydd yn unig, ond gyda'r angen i ystyried digwyddiad sy'n galluogi Cynghorwyr newydd i ddod i adnabod Cynghorwyr sy'n dychwelyd
  - Ehangu ar y ddarpariaeth mynediad o bell ar gyfer y dyddiau croeso
  - Ystyried grwpiau llai er mwyn galluogi mwy o sgwrs yn hytrach na chyflwyniadau.
  
- Cyflwyno gwybodaeth a hyfforddiant
  - Ystyried sut i flaenoriaethu'r wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno dros y cyfnod cyntaf yn bellach.

# Eitem 8

## CYNGOR GWYNEDD



<b>Pwyllgor:</b>	Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	5ed Gorffennaf, 2022
<b>Teitl yr Eitem:</b>	Cyfarfodydd aml-leoliad
<b>Pwrpas:</b>	Diweddariad am ddatblygiadau ymarferol o ran cynnal cyfarfodydd hybrid.
<b>Swyddog (ion) cyswllt:</b>	Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

### Adroddiad i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth

#### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno.

#### 2. CRYNODEB

- 2.1 Ers Hydref 2020 mae holl gyfarfodydd y Cyngor wedi eu cynnal yn rhithiol gyda darpariaeth cyfieithu ar y pryd drwy Zoom. Bellach, mae cyfarfodydd o'r fath yn ail natur i'r Cynghorwyr a phawb wedi ymgyswgu gyda'r trefniadau. Llwyddwyd i gynnal 123 o gyfarfodydd pwyllgorau'r Cyngor yn rhithiol yn ystod 2021/22 yn ogystal â chefnogi 41 o gyfarfodydd anffurfiol i Gynghorwyr.
- 2.2 Yn Rhagfyr 2021, penderfynodd y Cyngor llawn ar y trefniadau hir dymor ar gyfer cynnal pwyllgorau'r Cyngor. Y penderfyniad oedd i barhau i gynnal cyfarfodydd yn rhithiol lle bo modd, a chynnal cyfarfodydd aml leoliad lle bo diddordeb uchel gan y cyhoedd. Rydym felly yn cynnal cyfarfodydd aml leoliad ar gyfer
- Y Cyngor llawn
  - Y Cabinet
  - Pwyllgor Cynllunio
  - Pwyllgorau Craffu
- 2.3 Mae buddion ac arferion da amlwg wedi dod o gynnal cyfarfodydd rhithiol, arferion sydd angen eu cynnal i'r dyfodol. Wrth fabwysiadu'r trefniadau rhoddwyd ystyriaeth i nifer o wahanol ffactorau gan gynnwys



- hybu amrywiaeth mewn democratiaeth trwy alluogi mynediad o bell i gyfarfodydd ac ymateb i anghenion Cynghorwyr sy'n gweithio ac/neu'n rhieni ifanc
  - Cyfrannu'n bositif tuag at leihau effeithiau'r Argyfwng Hinsawdd drwy adnabod ffyrdd o ostwng carbon drwy gyfyngu ar deithio i gynghorwyr a swyddogion
  - defnyddio amser Cynghorwyr a swyddogion yn fwy synhwyrol trwy ddileu'r gofynion teithio.
- 2.4 Yn sgîl y penderfyniad i gynnal cyfarfodydd pwyllgorau ffurfiol yn rhithiol lle bo modd a chynnal cyfarfodydd aml leoliad (hybrid) lle bo diddordeb uchel gan y cyhoedd, rydym wedi bod yn gweithio ar addasu'r adnoddau yn y siambrau i alluogi cynnal cyfarfodydd aml leoliad. Mae wedi bod yn her i ddod a'r trefniadau ynghyd, yn arbennig gan sicrhau fod y cyfan yn digwydd yn naturiol trwy'r Gymraeg gan alluogi cyfieithu ar y pryd. Mae'n hawdd anghofio fod y gwaith datblygu i gyd wedi gorfod digwydd o fewn cyfyngiadau Covid-19, wrth i ni wynebu misoedd o arweiniad i fod yn gweithio o gartref.
- 2.5 Bellach, gallaf adrodd ein bod wedi cynnal cyfarfodydd y Cyngor llawn, y Cabinet a'r Pwyllgor Cynllunio yn aml leoliad. Bydd cyfres cyntaf y pwyllgorau craffu yn cychwyn ym mis Gorffennaf – eto yn aml leoliad. Mae modd cynnal cyfarfodydd aml leoliad o Siambr Dafydd Orwig, ac o Siambr Hywel Dda bellach. Rwy'n ddiolchgar i bawb am eich cydweithrediad wrth i ni barhau i ddatblygu'r trefniadau hyn.
- 2.6 Law yn llaw a'r uchod, mae gwaith yn digwydd ar ddatblygu ystafelloedd cyfarfod eraill ar gyfer gallu cynnal cyfarfodydd anffurfiol o amrywiol leoliadau. Bydd un system yn cael ei archebu ar gyfer pob ystafell gan ganolbwyntio ar geisio sicrhau fod defnyddio'r system am fod yr un fath ym mhob ystafell, er y gall y caledwedd amrywio yn ddibynnol ar faint yr ystafell.